



CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING:

16.12.20

Wel dyma ni – gyda diwedd y tymor wedi dod ddeuddydd yn gynnwys oherwydd yr amgylchiadau eithriadol sydd ohoni ar hyn o bryd. Manteisir ar y cyfle yma i ddiolch i bawb unwaith eto am bob cydweithrediad yn ystod y cyfnod anodd a dyrys hwn. Gwerthfawrogir cyfraniad PAWB yn ddi-wahan wrth i ni wneud ein gorau i gadw pob un o fewn cymuned yr ysgol yn iach a diogel.

Here we are again – with the end of term coming two days early due to the exceptional circumstances that we find ourselves in at this time. I take this opportunity to thank everyone for their co-operation during this difficult time. EVERYONE's contribution from within the school's community is thanked for ensuring that we keep all within our community safe and well.

TYMOR NESAF – NEXT TERM.

Mae llawer o sôn ar hyn o bryd am fesurau pellach i geisio lleihau lledaeniad y feirws yn dilyn cyfnod y Nadolig. Does dim gwybodaeth wedi'n cyrraedd hyd yma, ond gofynnir i chi gadw golwg ar yr app tua diwedd y gwyliau, lle y byddwn yn rhoi gwybodaeth pellach os y derbynnir hwnnw yn ystod y gwyliau. Mae'r ysgol i ail ddechrau i'r disgyblion **ddydd Mawrth, Ionawr 5ed. 2021.**

*There is a great deal of talk these days regarding strict measures to become operational following the Christmas break. No information has been given to us as yet, but you are asked to keep an eye on the app towards the end of the holiday, where we will share any further information with you if any is received during the holiday. The school is to re-open for the pupils on **Tuesday, January 5th. 2021.***


YMDDEOLIAD MRS D. EDWARDS' RETIREMENT.

Mae Mrs D. Edwards yn gorffen fel athrawes a chyd lynydd ADY yr ysgol heddiw, wedi cyfnod o dair blynedd a thymor yn yr ysgol. Diolchir iddi am ei cyfaniad i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwnnw, a dymunir ymddeoliad hapus a dedwydd iddi.

Mrs D. Edwards is finishing her duties as the school's Additional Needs teacher and co-ordinator today, after more than 3 years service to the school. She is thanked for her contribution to the school during that time, and she is wished all the very best in her retirement.

PARTION NADOLIG – CHRISTMAS PARTIES.

Mae'r disgyblion oll wedi cyfranogi mewn partion Nadolig tra gwahanol eleni, ond er hynny, mae pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn. Cafodd disgyblion yr Unedau dan 7 fwynhad yn gwyllo sioe gan Professor Llusern ddoe a thalodd Sion Corn ymweliad rhithiol â'r disgyblion i fyny at Flwyddyn 4 heddiw.



All of the school's pupils have participated in Christmas parties that have been quite different this year, but despite this, they have very much enjoyed themselves. The Under 7's Units pupils had much pleasure in participating in a show by Professor Llusern yesterday, and Father Christmas made a virtual visit to pupils up to Year 4 today.

CYFLWYNIADAU NADOLIG – CHRISTMAS PRESENTATIONS.

Byddwch yn derbyn y linc ar gyfer perfformiad Nadolig dosbarth/adran addysgu eich plentyn/plant heddiw. Fe'ch hatgoffir i **BEIDIO** ag uwchlwytho na rhannu'r cyflwyniadau ar unrhyw achlysur, gan mai ar gyfer eich defnydd chi **yn unig** y mae y rhain, a dyna paham nad anfonnir y ddolen ar yr app. Mawr hyderir y gwnewch fwynhau cyflwyniad eich plentyn/plant yn fawr.

*You will receive a link for your child/ren's class/teaching department's Christmas performance. You are reminded **NOT** to download the videos or share them on social media under any circumstances, as these are for your own use **only**, and this is why the link is not sent on the app. It is hoped that you enjoy your child/ren's presentation/s.*

FFRINDIAU GLANRAFON – FRIENDS OF GLANRAFON.

Diolchir o waelod calon i bwyllgor Ffrindiau Glanrafon am eu haelioni yn cyflwyno anrheg hyfryd i bob disgybl yr wythnos hon. Gwerthfawrogir eu haelioni yn fawr iawn, ac am eu cyfraniad i wneud y Nadolig mor gofiadwy ag sydd bosib i'r holl ddisgyblion.

The Friends of Glanrafon committee is warmly thanked for their generosity in presenting a gift to each child this week. Their generosity and contribution in making Christmas as memorable as possible to the children, is greatly appreciated.

CYSTADLAETHAU NADOLIG Y FFRINDIAU – FRIENDS CHRISTMAS COMPETITIONS.

Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan yn y ddwy gystadleuaeth a drefnwyd ar eu cyfer gan Ffrindiau Glanrafon. Diolchir i'r Ffrindiau am drefnu ar gyfer hyn a sicrhau gwobrau i'w gwario ym musnesau lleol Yr Wyddgrug.

Many thanks to everyone who participated in the two competitions organised by the Friends of Glanrafon. Many thanks to the committee for organising the competitions and for ensuring vouchers as prizes to be spent in local businesses in Mold.

Roedd y cyfan yn werth eu gweld, a phleser yw cael cyhoeddi mai dyma'r canlyniadau ar gyfer y ddwy gystadleuaeth:

They were all worth seeing, and it is a pleasure to announce that the winners were as follows:

Ffenestr wedi'i haddurno – Decorated window:

1af/1st – Sarah B

2il/2nd – Erin S a Gwen S

3ydd/3rd – Erin J

Anifail wedi'i addurno – Decorated animal:

1af/1st – Ieuan F

2il/2nd. – Elen E

3ydd/3rd – Flynn G

GWAITH ADEILADU – BUILDING WORK.

Rwyn hoffi rhoi diweddariad i chi am y modd mae'r gwaith adeiladu yn dod yn ei flaen. Erbyn hyn, mae nhw'n gweithio ar y sylfeini ar gyfer yr estyniad yng nghefn yr ysgol. Golyga hyn mai dim ond o flaen yr ysgol y gellir cyrraedd a gadael yr adeilad.

I like to give you an update as regards to how the building work is progressing. By now, they are working on the foundation for the extension at the back of the school. This means that it is from the front of the building that everyone can enter and leave the school.

CYFARCHION Y TYMOR – SEASON'S GREETINGS.

Ar ran pawb yn Ysgol Glanrafon, cymeraf y cyfle hwn i ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch, gan fawr hyderu y cawn ddod yn ôl at ein gilydd eto ym mis Ionawr.

On behalf of everyone at Ysgol Glanrafon, I take this opportunity to wish you all a happy Christmas and prosperous new year, hoping that we will be able to come back together again in the new year.



CADWCH YN IACH A DIOGEL – KEEP SAFE AND WELL.